*This document is also available in English.* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Ionawr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Amh.** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau i Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov.wales) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu sawl cyfarfod a digwyddiad, yn fewnol ac yn allanol ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cyfarfod â'r Prif Swyddog Tân yn rheolaidd. Maent hefyd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân cyn cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2022.

6 Ar 17 Hydref mynychodd y Dirprwy Gadeirydd y seremoni cyflwyno tystysgrifau ar gyfer cwblhau cwrs Phoneix a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân Dinbych.

7 Ar 19 Hydref cyfarfu'r Cadeirydd â Llinos Morris, Caplan Gwirfoddol y Gwasanaeth, i ddysgu mwy am ei rôl.

8 Ar 21 Hydref bu'r Cadeirydd yn cynrychioli'r Awdurdod mewn cyfarfod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

9 Cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo'r Gwasanaeth Tân a ohiriwyd ar 27 Hydref a chymerodd y Cadeirydd ran yn y broses o gyflwyno gwobrau. Roedd y Dirprwy Gadeirydd yn bresennol hefyd.

10 Ar 31 Hydref, mynychodd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a’r Prif Swyddog Tân gyfarfod rhithwir gyda Chadeiryddion/Dirprwy Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Cymru i drafod gohebiaeth ddiweddar a dderbyniwyd oddi wrth y Dirprwy Weinidog.

11 Ar 11 Tachwedd mynychodd y Dirprwy Gadeirydd y seremoni cyflwyno tystysgrifau ar gyfer cwblhau cwrs Phoneix a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân y Fflint. Roedd Maer y Fflint – y Cynghorydd Michelle Perfect hefyd yn bresennol.

12 Ar 17 Tachwedd, mynychodd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, y Prif Swyddog Tân ac aelodau eraill o'r Awdurdod angladd cyn Aelod o'r Awdurdod, y Cynghorydd Brian Blakeley.

13 Ar 21 Tachwedd cafodd y Cadeirydd a’r Dirprwy Gadeirydd eu cyfweld drwy Zoom gan aelodau o Swyddfa Archwilio Cymru i drafod adolygiad ‘Lleihau Galwadau Diangen’.

14 Ar 22 Tachwedd aeth y Dirprwy Gadeirydd i gyflwyniad ymddeoliad yng Ngorsaf Dân y Fflint ar gyfer y Rheolwr Gorsaf Tommy Probert. Roedd y Prif Swyddog Tân a Maer y Fflint – y Cynghorydd Michelle Perfect hefyd yn bresennol.

15 Ar 23 Tachwedd cyfarfu Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod â Chlerc a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau.

16 Ar 28 Tachwedd, roedd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a’r Prif Swyddog Tân yn bresennol mewn cyfarfod rhithwir o Banel Tân ac Achub CLlLC ynghyd â Chadeiryddion/Dirprwy Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Cymru.

17 Ar 2 Rhagfyr aeth y Cadeirydd i ddigwyddiad cynnau'r Goleuadau Nadolig yn Llangefni a chyfarfu â'r criw lleol a oedd yn cymryd rhan yn y digwyddiad.

18 Ar 5 Rhagfyr mynychodd y Dirprwy Gadeirydd Wasanaeth Carolau Nadolig Cyfun y Gwasanaethau Brys a gynhaliwyd yng Nghadeirlan Llanelwy.

19 Ddydd Nadolig, ymwelodd y Cadeirydd â Gorsafoedd Tân Caernarfon, Bangor a Chaergybi i gwrdd â'r criwiau oedd ar ddyletswydd.

20 Ers yr adroddiad diwethaf mae'r Cadeirydd hefyd wedi bod yn gohebu â'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pynciau a ganlyn:-

- Adolygiad Thematig hyfforddiant y Prif Gynghorydd Tân ac Achub;
- adolygiad diwylliant annibynnol Brigâd Dân Llundain;
- trefniadau ar gyfer cyfarfod cyntaf y Fforwm Partneriaeth

Gymdeithasol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir gan aelodau yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Nid oes goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Nid oes goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid oes goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Nid oes risgiau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |